Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llannerch-y-medd
# Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd
# Llannerch-y-medd
# Ynys Môn
# LL71 8DP

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llannerch-y-medd sy'n cwrdd mewn ystafell gymunedol ar safle Ysgol Gynradd Llannerch-y-medd, yn awdurdod lleol Sir Fôn. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy a hanner i dair oed mewn sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore bob wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 14 o blant fesul sesiwn. Mae 12 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda phedwar ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Cymraeg yw prif iaith y cartref rhan fwyaf o blant y lleoliad.

Mae pedwar aelod o staff cymwysedig yn gweithio yn y lleoliad, gyda'r arweinydd yn ei swydd ers mis Mawrth 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Medi 2015 a chan Estyn ym mis Mehefin 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth priodol o weithgareddau diddorol sy'n hwyluso dysgu'r plant
- cynlluniau'r ymarferwyr yn dechrau ystyried anghenion plant unigol ac yn adeiladu'n addas ar yr hyn y maent yn ei wybod yn barod
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant
- perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant
- ymarferwyr wedi sefydlu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol mewn amser byr
- yr holl ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus ac yn cefnogi medrau llafar y plant yn effeithiol

Fodd bynnag:

- nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu holl feysydd dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen
- nid oes gan y lleoliad gynlluniau addas i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn systematig ar draws y meysydd dysgu
- nid yw'r holl staff yn cyfrannu'n ddigon cyson i'r broses o gynllunio profiadau dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- yr arweinydd wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol ac amcanion clir a phwrpasol ar gyfer y lleoliad mewn amser byr
- arweinwyr yn gweithredu'n brydlon ar arweiniad a chyngor gan asiantaethau allanol
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- yr adroddiad hunanarfarnu cyfredol, ar y cyfan, yn amlygu llawer o gryfderau a meysydd i'w gwella yn lled gywir
- blaenoriaethau'r cynllun gwella yn cysylltu'n briodol â llawer o'r canfyddiadau a nodir yn yr aroddiad hunanarfarnu
- ganddo bartneriaethau cadarn sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a phrofiadau dysgu'r plant

Fodd bynnag:

- nid oes ganddo weithdrefnau ffurfiol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr
- nid yw’r trefniadau hunanarfarnu newydd wedi cael amser i wreiddio’n llwyr
- nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu yn mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau’r disgyblion yn ddigon effeithiol

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn systematig ar draws y meysydd dysgu

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio’n fwriadus i ddatblygu holl feysydd dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol dros gyfnod

A3 Datblygu’r cyfleoedd i’r holl ymarferwyr gyfrannu’n fwy effeithiol at weithdrefnau cynllunio ac asesu

A4 Cryfhau gweithdrefnau hunanarfarnu ymhellach er mwyn mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau plant

A5 Datblygu gweithdrefn rheoli perfformiad sy’n sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfleoedd cyson a phriodol i ddatblygu’n broffesiynol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, na'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant na sut y maent yn cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Ers penodiad yr arweinydd a'r staff newydd yn ddiweddar iawn, mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth addas o weithgareddau diddorol sy'n hwyluso dysgu'r plant yn briodol. Maent yn seilio'r rhain ar themâu perthnasol sy'n adeiladu ar brofiadau bywyd y plant yn llwyddiannus. Yn ddiweddar iawn, mae'r plant yn cael cyfleoedd addas i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau'r tymor, er enghraifft wrth ddweud beth hoffent ddysgu am yr ardd. Mae'r ymarferwyr yn dechrau ystyried anghenion plant unigol wrth gynllunio, gan adeiladu'n addas ar yr hyn y maent yn ei wybod yn barod. Maent yn cynllunio'n briodol er mwyn sicrhau cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu eu medrau mewn nifer o'r meysydd ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am sut i blannu a gofalu am blanhigion. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr hyd yn hyn yn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer datblygu holl feysydd dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant trwy amrywiaeth briodol o ymarferion a phrofiadau buddiol. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd cyson y mae'r plant yn eu cael i ehangu eu geirfa a datblygu eu medrau siarad a gwrando. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd cyson y mae'r plant yn eu cael i ganu hwiangerddi cyfarwydd ac i drafod y tywydd yn ddyddiol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu medrau darllen cynnar ac i adnabod llythrennau cyfarwydd yn briodol, er enghraifft trwy wrando ar storïau yn y gornel darllen ac i adnabod eu henwau yn ystod amser byrbryd. Trwy ymgymryd â gweithgareddau gwneud marciau yn yr ardal allanol a rheoli brws paent i greu lluniau, mae'r plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant trwy ystod addas o ymarferion a gweithgareddau dyddiol, er enghraifft trwy ganu rhigymau a chyfri un yn fwy ac yn llai wrth drafod planhigion. Mae'r plant yn cael ychydig o gyfleoedd i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er enghraifft trwy reoli tegan rhaglenadwy. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr hyd yn hyn yn defnyddio cynlluniau tymor hir i adeiladu'n fwriadus ar

fedrau llythrennedd, rhifedd na ThGCh y plant yn ddigon systematig ar draws y meysydd dysgu.

Rhoddir sylw priodol i ddatblygu medrau corfforol mawr y plant mewn sesiwn ymarferol wythnosol yn yr ardal allanol, ac yn achlysurol yn neuadd yr ysgol. Mae'r arweinydd yn dechrau gwneud defnydd addas o'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo profiadau dysgu'r plant, er enghraifft trwy wahodd swyddog o'r cyngor i siarad gyda'r plant am bwysigrwydd ailgylchu.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau naws Cymreig yn llwyddiannus iawn trwy roi cyfleoedd addas i blant ganu a chyfathrebu yn y Gymraeg trwy gydol y sesiynau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y Gymraeg gyda chyfoedion ac oedolion.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth addas o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant. O fewn amser byr, maent wedi datblygu i gydweithio'n effeithiol fel tîm ac maent yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant. Mae'r berthynas waith gadarn sy'n bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn cyfrannu'n dda at greu awyrgylch o gydweithio a pharch tuag at ei gilydd. Maent yn rheoli ymddygiad yn effeithiol ac yn canmol y plant am eu hymdrechion trwy gydol y sesiynau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr wedi sefydlu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol sy'n annog ymglymiad a chyfranogiad plant yn llwyddiannus. Maent yn modelu'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus gan sicrhau cyfleoedd addas i ymestyn iaith y plant drwy ganu a sgwrsio â nhw yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu trwy chwarae, er enghraifft wrth iddynt chwarae rôl yn y 'siop flodau'. Ar y cyfan, maent yn ymyrryd ar adegau priodol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion ac mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blentyn a'r rheini a arweinir gan oedolion. Mae hyn yn cynnal diddordeb y plant am gyfnodau addas ac yn eu hannog i ddysgu dros eu hunain.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer asesu cynnydd y plant. Yn ddiweddar iawn, mae'r ymarferwyr wedi dechrau defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i asesu man cychwyn y plant. Fodd bynnag, nid ydynt i gyd hyd yn hyn yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon systematig er mwyn cynllunio'n fwriadus ar gyfer anghenion unigolion o'u man cychwyn. Mae'r ymarferwyr yn dechrau cofnodi llwyddiannau'r plant yn addas er mwyn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol yn briodol. O ganlyniad, mae cynlluniau wythnosol yn sicrhau bod y tasgau ffocws yn addas i oed a gallu'r rhan fwyaf y plant. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff yn cyfrannu'n ddigon cyson at y broses o gynllunio profiadau dysgu hyd yn hyn.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar gynnydd y plant yn briodol er mwyn cynnig adborth buddiol i rieni. Maent yn cofnodi llwyddiannau'r plant ym mhob maes dysgu er mwyn rhannu llyfr cofnod o'u hamser yn y lleoliad gyda rhieni.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach yn effeithiol trwy weithgareddau fel amser diod a ffrwythau. Mae'r cyfnod hwn hefyd yn datblygu eu medrau cymdeithasol a llythrennedd yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant yn dda am eu hylendid personol trwy bwysleisio pwysigrwydd golchi eu dwylo cyn bwyta a brwsio'u dannedd yn rheolaidd. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y plant, er enghraifft wrth eu hannog i ddangos parch trwy ystod o weithgareddau ac arferion dyddiol. Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb trwy gymryd eu tro i weini'r byrbryd yn ddyddiol. Mae hyn yn datblygu hunanhyder a medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r plant yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar iawn, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o fuarth yr ysgol i gyfoethogi'r ddarpariaeth ac i ehangu'r cyfleoedd i'r plant gael ymarfer corfforol trwy well ystod o weithgareddau buddiol. Mae hyn yn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu, er enghraifft trwy ddefnyddio bin er mwyn compostio croen ffrwythau. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn i ymateb i anghenion unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod y plant hyn yn cael y cymorth priodol. O ganlyniad, maent yn ymwybodol iawn o anghenion y plant ac yn eu cefnogi'n effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mewn cyfnod byr, mae'r pwyllgor a'r ymarferwyr wedi sefydlu amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a chroesawgar ar gyfer y plant. Er bod ardal allanol y sefydliad yn gyfyng iawn yn ôl maint, mae'r ymarferwyr yn dechrau datblygu'r ardal yn briodol er mwyn cyflwyno profiadau dysgu addas i'r plant yn yr awyr agored. Maent yn tyfu blodau sy'n eu haddysgu am fyd natur ac anghenion planhigion yn briodol. Mae'r cydweithrediad cadarn sy'n bodoli gyda'r ysgol gynradd sydd ar y safle yn sicrhau defnydd effeithiol o'r cyfleusterau sydd ar gael er mwyn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau corfforol y plant yn llwydiannus.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân. Mae cyflenwad priodol o adnoddau ac ardaloedd dysgu pwrpasol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ymchwilio a dysgu drostynt eu hunain. Mae gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd priodol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu, yn cael yr un chwarae teg ac yn cael ei drin yn gyfartal.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers ei phenodiad yn ddiweddar iawn, mae'r arweinydd wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol ac amcanion clir a phwrpasol sy'n hyrwyddo lles a chynnydd y plant yn gadarn. Mae'r arweinydd yn rhannu'i gweledigaeth yn llwyddiannus gyda'r holl ymarferwyr, y rhieni a'r pwyllgor. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun ac o'r holl ymarferwyr. Mae'n defnyddio arweiniad a chyngor gan asiantaethau allanol yn ddeallus er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Er bod y rhan fwyaf o'r staff yn newydd iawn i'w swyddi, mae pob un yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at greu ethos gweithgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Er nad oes gan y lleoliad weithdrefnau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf wedi cael hyfforddiant pwrpasol sy'n diwallu'u hanghenion yn briodol, er enghraifft wrth ymgymryd â hyfforddiant elfennol ar ddiogelu plant.

Mae'r pwyllgor newydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar iawn. Fodd bynnag, o fewn amser byr, mae'r arweinydd a'r pwyllgor wedi cydweithio'n briodol a gweithredu ar gyngor arbenigwyr allanol, gan gynnwys athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Maent wedi sicrhau bod polisïau statudol yn eu lle, yn ogystal â sicrhau cyflenwad addas o staff ac adnoddau dysgu. Gan fod y pwyllgor yn newydd ac ond wedi cwrdd am y tro cyntaf yn ddiweddar iawn, mae'n rhy gynnar i fesur ei effeithiolrwydd ar y ddarpariaeth a safonau plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw addas i ychydig o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd y plant, yn ogystal â hybu eu lles a'u ffitrwydd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mewn amser byr, mae'r arweinydd wedi cydweithio'n briodol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol er mwyn ymgyfarwyddo â chanllawiau hunanarfarnu i werthuso'r ddarpariaeth. Mae'r lleoliad yn dechrau casglu barn rhieni yn briodol ac yn defnyddio gweithdrefnau hunanarfarnu'r awdurdod lleol yn addas. O ganlyniad, mae arweinwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o gryfderau'r ddarpariaeth yn briodol yn ogystal ag ychydig o feysydd y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael amser i wreiddio'n llwyr nac yn arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol ar y cyfan yn adlewyrchiad gonest a theg o'r lleoliad ac yn amlygu llawer o gryfderau a meysydd i'w gwella yn lled gywir. Mae'r cynllun gwella yn fanwl ac yn cysylltu'n llwyddiannus â'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'n nodi'n gywir yr hyn sydd angen ei wella ynghyd â chamau gweithredu perthnasol, cyfrifoldebau a meini prawf llwyddiant addas. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylder o ran y cyllid ar gyfer pob targed. Nid yw'r cynllun yn nodi dyraniad cyllid priodol ar gyfer y targedau nac yn pennu amserlen er mwyn monitro cynnydd yn gyson.

Mae'r arweinydd wedi gweithredu'n brydlon ar unrhyw argymhellion a chyngor gan asiantaethau allanol, fel athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Trwy gydweithio'n bwrpasol gyda'r arbenigwyr hyn ynghyd â'r staff a'r pwyllgor, mae'r arweinydd wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn a threfnus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cadarn sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a phrofiadau dysgu'r plant. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad y staff a'r berthynas waith sy'n bodoli rhyngddyn nhw a'r plant. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod rhieni yn cael cyfleoedd da i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ymarferwyr yn gynnar iawn. Trwy lenwi holiaduron diweddar, mae rhieni'n dechrau cynnig eu sylwadau a'u barn ar y lleoliad yn briodol.

Mae gan y lleoliad gyswllt buddiol â'r ysgol leol sydd ar yr un safle. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o fuarth a neuadd yr ysgol er mwyn hyrwyddo lles a ffitrwydd y plant yn effeithiol. Yn ddiweddar iawn, mae'r plant wedi cael cyfleoedd buddiol i ymuno â'r dosbarth meithrin am gyfnod wythnosol i wrando ar stori a chanu rhigymau a chaneuon cyfarwydd. O ganlyniad, mae'r trefniadau trosglwyddo cadarn hyn yn sicrhau bod y plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin ac yn gweithredu'n gyflym ar gyngor ac arweiniad sy'n cyfrannu at wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Maent hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau arbenigol er mwyn sicrhau cymorth buddiol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad yn dechrau gwneud defnydd addas o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae'r pwyllgor a'r rhieni yn cynnig cynnal stondin yn niwrnod hwyl y pentref er mwyn codi arian ar gyfer y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifainc. Er yn gymharol newydd i'r lleoliad, mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o'i phrofiad er mwyn cefnogi'r plant yn llwyddiannus. Mae hi wedi dechrau ymweld â chylchoedd eraill er mwyn cael syniadau ac i weld ffyrdd eraill o weithredu ar waith. Er nad oes gan y lleoliad hyd yn hyn weithdrefnau ffurfiol i reoli perfformiad y staff ac i gefnogi eu datblygiad, mae'r arweinydd yn annog ymarferwyr i ddechrau manteisio ar gyfleoedd amrywiol i fynychu hyfforddiant priodol.

Mae'r pwyllgor yn rheoli adnoddau yn addas ac yn sicrhau cyflenwad priodol o gyfarpar dysgu sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae gan swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa ariannol ac maent yn dechrau rheoli gwariant yn ofalus.

Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |